

Briff Ymchwil

# Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017

- Crynodeb o'r Ddeddf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Osian Bowyer**
Dyddiad: **Medi 2017**
Rhif Papur: **17-019**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6296**
: **Osian Bowyer@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017

Derbyniodd Bil yr Undebau Llafur (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 07 Medi 2017.

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau ynghylch gweithredu diwydiannol a gweithgareddau undebau llafur mewn perthynas â gweithrediadau a'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

Mae'r papur hwn yn crynhoi y darpariaethau oddi fewn i'r ddeddf, y cefndir i'w gyflwyniad, ynghyd â gwybodaeth ynghylch ei drywydd trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. **Rhagarweiniad** ........ 1
2. **Cefndir** ........ 2
   - Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 ........ 2
   - Bil yr Undebau Llafur Llywodraeth y DU ........ 2
   - Bil Undebau Llafur y DU a Chynnig Chydsyniad Deddfwriaethol ........ 3
   - Cymhwysedd Deddfwriaethol ........ 3
   - Deddf Cymru ........ 3
   - Partneriaethau cymdeithasol ........ 4
   - Y diffiniad o "awdurdod datganoledig yng Nghymru" ........ 4
3. **Beth mae Deddf Undebau Llafur (Cymru) 2017 yn ei wneud** ........ 5
   - Strwythur y Ddeddf ........ 5
   - Dileu'r cyfyngiadau ar ddidynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus (check-off) ........ 5
   - Datgymhwyso'r rheoliadau ynghylch amser cyfleuster i awdurdodau datganoledig yng Nghymru ........ 6
   - Datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o bleidleisiau o blaid gweithredu diwydiannol yn achos "gwasanaethau cyhoeddus pwysig" ........ 6
   - Rheoliadau sy'n ymwneud â'r gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol ........ 6
4. **Amcangyfrif o'r gost o weithredu'r Ddeddf** ........ 8
   - Y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Ddeddf ........ 8
   - Costau eraill i awdurdodau datganoledig yng Nghymru ........ 8
   - Costau na ellir eu mesur ........ 8
5. **Ymateb Rhanddeiliaid** ........ 10
6. **Taith trwy'r Cynulliad** ........ 11
   - Cyfnod 1 ........ 11
   - Cyfnod 2 ........ 12
   - Cyfnod 3 ........ 13
   - Cyfnod 4 ........ 14

# 1. Rhagarweiniad

Mae Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn diwygio darpariaethau yn y Trade Union Act 2016 ("Deddf 2016") ynghylch gweithredu diwydiannol a gweithrediadau undebau llafur mewn perthynas â gweithrediadau a'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau datganoledig yng Nghymru. Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd y Ddeddf yn gwrthdroi effaith andwyol y darpariaethau yn Neddf 2016, gyda'r nod o ddiogelu'r modd y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru.

Prif ddiben y Ddeddf yw diwygio Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 ("Deddf 1992"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2016. Y bwriad yw datgymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf 2016 mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig yng Nghymru. Mae'r darpariaethau penodol fel a ganlyn:

- cyfyngiadau ar ddidyniadau tanysgrifiadau undeb o gyflogau gan gyflogwyr;
- rheoliadau ynghylch amser cyfleuster i awdurdodau datganoledig yng Nghymru a gosod gofynion ar gyflogwyr sector gyhoeddus mewn perthynas ag amser cyfleuster; a
- trothwy 40 y cant o bleidleisiau o blaid gweithredu diwydiannol yn achos gwasanaethau cyhoeddus pwysig.

Mae amcanion polisi'r Ddeddf yn ôl Llywodraeth Cymru, wedi'u seilio ar weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus "wedi'u gwreiddio yn egwyddorion partneriaeth gymdeithasol".

# 2. Cefndir

Ar 16 Ionawr 2017, cyflwynwyd **Bil yr Undebau Llafur (Cymru)** ('y Bil') a'r **Memorandwm Esboniadol** (PDF 731KB) sy'n cyd-fynd ag ef i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ('Ysgrifennydd y Cabinet').

Cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), a chyhoeddodd ei **adroddiad** (PDF 1.09MB) ar 7 Ebrill 2017.

Ar 16 Ionawr 2017, gosododd y Llywydd **ddatganiad am gymhwysedd deddfwriaethol** gerbron y Cynulliad. Hefyd, ysgrifennodd at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch **cymhwysedd deddfwriaethol.**

Yn ei llythyr, mae'r Llywydd yn rhoi crynodeb o'r materion a drafodwyd ganddi wrth wneud ei phenderfyniad am gymhwysedd, a chadarnhaodd fod y Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd y Cynulliad:

> *I gadarnhau fy marn, yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fod Bil Undebau Llafur (Cymru) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.*

Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet **ddatganiad ar y Bil** yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Ionawr 2017.

## Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992

**Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992** (PDF 2.75MB) (Deddf 1992) yn bennaf yw'r ddeddfwriaeth bresennol ar undebau llafur a chymdeithasau cyflogwyr.

Mae Deddf 1992 yn diffinio undebau llafur, yn amlinellu'r fframwaith (gan gynnwys hawliau a dyletswyddau cyfreithiol) sy'n rheoli'r ffordd y caniateir iddynt weithredu, gan gynnwys o dan ba amgylchiadau y caniateir gweithredu diwydiannol. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar agweddau gweithredol yr undebau llafur a'u perthynas â chyflogwyr, megis didynnu taliadau tanysgrifio undebau o gyflogau gweithwyr, amser cyfleuster a phleidleisiau. (Gweler Crynodeb o’r Bil am wybodaeth manwl ar y darpariaethau oddi fewn i Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992).

## Bil Undebau Llafur Llywodraeth y DU

Cyflwynwyd **Bil Undebau Llafur** Llywodraeth y DU (Bil y DU) yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2015. Ei nod oedd newid Deddf 1992 i ddiwygio'r gyfraith ar undebau llafur mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- cyflwyno trothwyon pleidleisio newydd ar gyfer gweithredu diwydiannol: ei gwneud yn ofynnol bod 50 y cant yn troi allan i bleidleisio ar weithredu diwydiannol;
- gofyniad ychwanegol bod yn rhaid i 40 y cant o'r rhai sydd â hawl i bleidleisio fwrw eu pleidlais o blaid gweithredu diwydiannol mewn sectorau allweddol, gan gynnwys mewn meysydd datganoledig fel iechyd, addysg (o dan 17 oed) a'r gwasanaethau tân (yn ychwanegol at y gofyniad a oedd yn bodoli eisoes bod yn rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau sy'n pleidleisio mewn gwirionedd fod wedi bwrw eu pleidlais o blaid gweithredu diwydiannol);
- gwneud darpariaethau sy'n ymwneud ag amser cyfleuster ar gyfer swyddogion undebau llafur yn y sector cyhoeddus, a hefyd

– cyfyngu ar ddidynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus (a elwir hefyd yn 'check-off');

## Bil Undebau Llafur y DU a Chynnig Chydsyniad Deddfwriaethol

Yn y Nodiadau Esboniadol i Fil y DU, dywedodd Llywodraeth y DU fel a ganlyn:

> *The provisions of the Act* **extend to Great Britain**. *In the view of the UK Government, the matters to which the provisions of the Act relate are* **not within the legislative competence of the Scottish Parliament or the National Assembly for Wales**; *accordingly no legislative consent motions are required.*

Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru **ddatganiad ysgrifenedig ar Fil y DU** gan gyfeirio at y Bil fel un sydd â'r potensial i "achosi niwed sylweddol i wead cymdeithasol ac economaidd y DU."

O ganlyniad, dadleuodd Llywodraeth Cymru y dylai cymalau penodol ym Mil y DU fod yn ddarostyngedig i gydsyniad y Cynulliad am eu bod yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Gosododd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar gyfer Bil y DU** ym mis Tachwedd 2015. Wrth wneud hynny, roedd yn argymell bod y Cynulliad yn peidio â rhoi ei gydsyniad.

Trafododd y Pedwerydd Cynulliad y **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 26 Ionawr 2016** a phleidleisiodd i wrthod rhoi cydsyniad deddfwriaethol i Fil y DU. Glynodd Llywodraeth y DU at ei safbwynt nad oedd y darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac anwybyddodd benderfyniad y Cynulliad i wrthod rhoi cydsyniad.

Cafodd Bil y DU Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2016 a daeth yn Ddeddf Undebau Llafur 2016 (Deddf y DU). Nid yw rhai adrannau y gwrthododd y Cynulliad roi ei gydsyniad iddynt wedi dod i rym. Fodd bynnag, daeth y ddarpariaeth ar gyfer y trothwyon pleidleisio i rym yng Nghymru ar 1 Mawrth 2017.

## Cymhwysedd Deddfwriaethol

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol (ME) Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â Bil yr Undebau Llafur (Cymru), mae cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud darpariaethau'r Bil yn deillio o'r pynciau o dan bob un o'r 21 pennawd yn Atodlen 7 i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r rhestr o bynciau yn helaeth, ac nis cynhwysir yma. Gellir ei gweld ar dudalennau 5 i 14 o'r Memorandwm Esboniadol. (Gweler **Crynodeb o'r Bil** am ragor o gefndir ar Gymhwysedd Deddfwriaethol).

## Deddf Cymru

Bydd Deddf Cymru 2017, pan ddaw i rym, yn newid setliad datganoli Cymru o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau. Mewn model cadw pwerau, caiff y Cynulliad basio deddfwriaeth ar yr amod nad yw'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl (hynny yw, mater sy'n cael ei gadw gan Senedd y DU), a'i bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol eraill fel cysondeb â deddfwriaeth yr UE a hawliau dynol.

Bydd Cyflogaeth a Chysylltiadau Diwydiannol (gan gynnwys pwnc Deddf 1992) yn fater a gedwir yn ôl pan ddaw'r rhannau perthnasol o Ddeddf Cymru 2017 i rym (rhagwelir y bydd hynny ym mis Ebrill 2018), a byddant felly y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

## Partneriaethau cymdeithasol

Y bartneriaeth gymdeithasol yw'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru o reoli staff gwasanaethau cyhoeddus a chysylltiadau diwydiannol. Gwneir hyn trwy ymwneud â awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, cyflogai a'r undebau llafur cydnabyddedig sy'n eu cynrychioli mewn modd 'gynhwysol'.

Nodir yn Memorandwm Esboniadol y Bil fod y '*dull hwn o weithredu yn wahanol iawn i'r dull mwy gwrthwynebol o weithredu a welir yn Lloegr ym maes cysylltiadau diwydiannol.*' Mae llwyddiant y model yn ôl Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar sicrhau cydbwysedd yn y berthynas rhwng y partneriaid ac yn benodol yr undebau llafur a'r cyflogwyr

Mae Llywodraeth Cymru, trwy'r Ddeddf hwn yn ceisio '*diwygio darpariaethau yn y Trade Union Act 2016 sy'n cael effaith andwyol ar ddull Llywodraeth Cymru o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru.*' Bydd, yn ôl Llywodraeth Cymru yn cael yr effaith o ddadwneud effaith y darpariaethau yn Neddf Undebau Llafur y DU, gyda'r bwriad o ddiogelu'r modd y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru yn y dyfodol.

## Y diffiniad o "awdurdod datganoledig yng Nghymru"

Mae adran 1(5) o Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 yn diffinio'r awdurdodau cyhoeddus hynny yng Nghymru y mae'r Ddeddf yn gymwys iddynt. Cyfeirir at y diffiniad o "devolved Welsh authority" yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn yr adran honno o Ddeddf 2006, ystyr "devolved Welsh authority" yw **awdurdod cyhoeddus a bennir yn Atodlen 9A o'r Ddeddf, neu sy'n arfer swyddogaethau (a) sydd yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig a (b) sydd bob un neu'n bennaf yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl.**

Gall y diffiniad o "devolved Welsh authority" sydd yn Neddf Llywodraeth Cymru gael ei ddiwygio drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, a'i gymeradwyo gan Senedd San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r diffiniad o "devolved Welsh authorities" bellach wedi ei fewnosod yn adran 4 o **Ddeddf Cymru 2017**.

Tra bo'r diffiniad yn cynnwys yr awdurdodau cyhoeddus datganoledig 'amlwg' yng Nghymru sydd â gweithluoedd mawr, megis y GIG yng Nghymru ac awdurdodau lleol, mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys yr amryw Gomisiynwyr, paneli cynghori, Pwyllgorau (ee Pwyllgor Fferyllol Cymru), tribiwnlysoedd datganoledig a chyrff cyhoeddus eraill.

# 3. Beth mae Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 yn ei wneud

## Strwythur y Ddeddf

Mae'r Ddeddf yn cynnwys 4 rhan. Y prif rannau yw adrannau yw adran 1 a 2.

- **Adran 1**: yn ceisio diwygio darpariaeth yn Neddf Undeb Llafur 2016 fydd, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn cael effaith andwyol ar ddull Llywodraeth Cymru o weithredu ar sail partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Mae adrannau 3, 13, 14 a 15 o Ddeddf Undebau Llafur y DU sy'n diwygio Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (TULR(C)A) yn gosod gofynion newydd mewn perthynas â **trothwy bleidleisio ar gyfer gweithredu diwydiannol**, **amser cyfleuster** a '**check off**' (didynnu taliad tanysgrifiadau undebau llafur o gyflogau). Mae'r Ddeddf yn ymgais i wrth-droi effaith y darpariaethau hyn a fydd ym marn Llywodraeth Cymru yn amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru;
- **Adran 2**: gwneud darpariaeth fydd yn sicrhau na fydd y gwaharddiad, sy'n atal awdurdodau datganoledig rhag defnyddio gweithwyr a ddarparwyd trwy asiantaeth i gyflenwi yn ystod gweithredu diwydiannol, yn cael ei godi;
- **Adran 3**: yn ymwneud â dod a'r Ddeddf i rym;
- **Adran 4**: yn nodi enw byr y Ddeddf.

### Dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Esboniadol** (PDF 731KB) i gyd-fynd â'r Bil. Mae'r Memorandwm yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n manylu ar y dewisiadau polisi a ystyriodd Llywodraeth Cymru a'r costau a'r manteision cysylltiedig o wneud y ddeddfwriaeth, a Nodiadau Esboniadol ar gyfer pob adran o'r Bil. Cyhoeddwyd **Memorandwm Esboniadol** diwygiedig yn dilyn ystyriaethau'r Pwyllgor yng Ngham 2 i gynnwys gwybodaeth ar ddiwygiadau a wnaethpwyd i'r Bil yng Ngham 2.

## Dileu'r cyfyngiadau ar ddidynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus (check-off)

Mae adran 1(2) o'r Ddeddf yn darparu na fyddai'r cyfyngiad ar ddidynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus yn gymwys i awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

Mae Adran 15 o Ddeddf y DU yn cyfyngu ar yr amgylchiadau lle y caiff tanysgrifiadau undebau llafur eu didynnu o gyflogau gweithwyr yn y sector cyhoeddus. Ni chaniateir gwneud didyniadau o'r fath oni bai bod gweithwyr yn cael y dewis i dalu eu tanysgrifiadau undeb drwy ddulliau eraill, a bod trefniadau wedi'u gwneud i'r undeb wneud taliadau rhesymol i'r cyflogwr mewn perthynas â'r didyniadau.

Roedd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau o'r farn fod y darpariaethau yn Neddf 2016 sy'n cyfyngu ar wasanaethau didynnu yn 'ddiangen a direswm':

> *Rydym o'r farn fod y darpariaethau yn Neddf 2016 sy'n ceisio cyfyngu ar wasanaethau didynnu yn ddiangen a direswm. Y maent hefyd yn dethol tanysgrifiadau undebau llafur oddi wrth daliadau eraill a wneir gan gyflogwyr ar ran cyflogeion. Ni welwn unrhyw reswm dilys dros gymhwyso'r darpariaethau i awdurdodau Cymreig datganoledig yng Nghymru. Drwy ansefydlogi'r bartneriaeth*

*gymdeithasol, efallai y bydd y darpariaethau yn cael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol yng Nghymru. Felly, rydym yn cefnogi adran 1(2) o'r Bil.*

## Datgymhwyso'r rheoliadau ynghylch amser cyfleuster i awdurdodau datganoledig yng Nghymru

Nod Adran 1(3) o Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 yw datgymhwyso'r rheoliadau sy'n ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster. Mae hefyd yn datgymhwyso'r rheoliadau sy'n ymwneud â chapio gwariant ar yr amser cyfleuster neu gyfyngu ar yr amser cyfleuster a ganiateir gan awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

Mae Adran 13 o Ddeddf y DU yn rhoi pŵer, drwy reoliadau, i Weinidogion y Goron (hynny yw, aelodau o Lywodraeth y DU) ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â'r amser cyfleuster a ddefnyddir gan swyddogion undebau llafur perthnasol.

Mae Adran 14 o Ddeddf y DU yn darparu pŵer i Weinidogion y Goron gapio, drwy reoliadau, y ganran o gyfanswm y bil cyflogau y mae cyflogwyr yn ei wario ar dalu swyddogion undeb am amser cyfleuster ac i gyfyngu ar hawliau swyddogion undeb i amser cyfleuster.

## Datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o bleidleisiau o blaid gweithredu diwydiannol yn achos "gwasanaethau cyhoeddus pwysig"

Mae adran 1(4) o Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 yn datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o bleidleisiau ar gyfer gweithredu diwydiannol yn achos "**gwasanaethau cyhoeddus pwysig**" a ddarperir gan awdurdodau datganoledig yng Nghymru. Yn achos rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, sydd yn diffinio "gwasanaethau cyhoeddus pwysig" at ddibenion gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir gweithredu diwydiannol, mae'r Ddeddf yn darparu na chaiff y rheoliadau hynny gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

Mae Adran 3 o Ddeddf 2016 yn darparu, er mwyn medru gweithredu'n ddiwydiannol, bod yn rhaid cael pleidlais gan ddim llai na 50 y cant o holl aelodau'r undeb sydd â hawl i bleidleisio. Yn ychwanegol i hyn, mae rhaid i **ddim llai na 50 y cant** o'r rhai sydd wedi pleidleisio fod wedi bwrw'u pleidlais **o blaid** gweithredu diwydiannol. Yn ogystal, os yw'r aelodau yn darparu "gwasanaethau cyhoeddus pwysig" (i'w diffinio mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol), rhaid i o leiaf 40 y cant o'r aelodau hynny sydd â hawl i bleidleisio fwrw pleidlais o blaid cymryd camau gweithredu diwydiannol.

Ar 1 Mawrth 2017, daeth rheoliadau sy'n diffinio 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' i rym ac maent bellach yn gymwys yng Nghymru.

## Rheoliadau sy'n ymwneud â'r gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol

Mae Adran (2) o Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 yn darparu ar gyfer diogelu'r gwaharddiad presennol ar y defnydd o weithwyr asiantaeth, gan gyflogwyr, i gyflenwi yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol awdurdodedig.

Yn ystod **datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar y Bil**, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at gynigion Llywodraeth y DU i ddirymu rheoliadau sy'n atal cyflenwi gweithwyr asiantaeth i weithio yn ystod gweithredu diwydiannol.

Bu i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar gynigion i gynnal yr egwyddor na ddylid cyflogi gweithwyr asiantaeth ar adeg o weithredu diwydiannol.

Mae'r gwaharddiad presennol i'w weld yn rheoliad 7 o **Reoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003** (PDF 152KB), a wnaed o dan Ddeddf Asiantaethau Cyflogaeth 1973.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi gweithredu ar ei gynigion i ddirymu’r rheoliadau hyd yma. Byddai Adran (2) o’r Ddeddf er hynny yn rhwystro awdurdodau datganoledig yng Nghymru rhag defnyddio gweithwyr asiantaeth yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol, pe byddai Llywodraeth y DU yn penderfynu dirymu’r rheoliadau.

# 4. Amcangyfrif o'r gost o weithredu'r Ddeddf

## Y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Ddeddf

Roedd Asesiad Effaith Rheoleiddio (AER) wedi ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol (fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 1) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd **cost untro o £61,000** i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer ymgyfarwyddo ei hun â'r Ddeddf. Mae hyn, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn is na'r amcangyfrif yn asesiad effaith Llywodraeth y DU a oedd yn rhagdybio y byddai angen wyth awr i ymgyfarwyddo â'r gofynion. Mae asesiad effaith Llywodraeth Cymru wedi gostwng hyn i dair awr:

> *Wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, cafodd yr amser hwnnw ei dorri i dair awr ar gyfer y ddeddfwriaeth hon ar y sail bod angen llai o ymgyfarwyddo pan fo darpariaethau'n cael eu datgymhwyso (gan gynnwys trefniadau didynnu drwy'r gyflogres) a bod gwneud hynny'n adfer trefniadau sy'n bod ers tro ac a ddeellir yn gyffredinol.*

Mae Deddf y DU 2016 yn cyflwyno'r angen i sefydliadau yn y sector cyhoeddus gyhoeddi adroddiad blynyddol am eu gwariant ar 'amser cyfleuster'. Mae asesiad Llywodraeth Cymru o'r gost i gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn seiliedig ar Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth y DU. Amcangyfrifir mai'r gost flynyddol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru o lunio adroddiad am 'amser cyfleuster' yw **£171,700**. Yn ôl Llywodraeth Cymru, byddai datgymhwyso'r elfen hon o ddeddfwriaeth y DU "yn dileu'r gost flynyddol hon i'r sector cyhoeddus."

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae yna amcangyfrif o arbedion net ar gostau gweinyddol i awdurdodau datganoledig yng Nghymru o **£797,500** o weithredu'r Ddeddf.

## Costau eraill i awdurdodau datganoledig yng Nghymru

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn darparu costau cysylltiedig ar gyfer datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o'r bleidlais, sef **llai na £85,000 y flwyddyn.** Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrif o effaith net **cynnydd mewn diwrnodau gwaith a gollir** oherwydd gweithredu diwydiannol. Fodd bynnag, nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *Am nad oes fawr o ddata sy'n gysylltiedig â chynnwys y ddeddfwriaeth ar gael ar lefel Cymru, bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar* ***gynnwys, rhagdybiaethau ac amcangyfrifon*** *yn nogfennau Llywodraeth y DU.*

Nid yw asesiad effaith Llywodraeth y DU ar gyfer Trade Union Act 2016 y DU yn cynnwys adolygiad manwl o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â gweithredu trothwy o 40 y cant mewn 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig'.

## Costau na ellir eu mesur

Mae Deddf y DU 2016 yn gosod cyfyngiadau ar ddarparu gwasanaethau didynnu drwy'r gyflogres, drwy ei gwneud yn ofynnol i undebau llafur fodloni amodau penodol. Yn ôl asesiad effaith Llywodraeth y DU **mae 22 y cant o gyflogwyr y sector cyhoeddus** yn cael eu had-dalu ar hyn o bryd am ddarparu gwasanaeth didynnu drwy'r gyflogres. Bydd y cyflogwr a'r undeb llafur yn cytuno ar y swm i'w dalu.

Yn ôl Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru, mae'n anodd cyfrif y costau a fyddai'n gysylltiedig â dileu'r cyfyngiadau ar y darpariaethau sy'n ymwneud â didynnu drwy'r gyflogres, a hynny oherwydd mai:

> *Mater i'r cyflogwyr a'r cyflogeion yn y sector cyhoeddus gytuno arno fydd penderfynu a ddylid cynnig y gwasanaeth hwn ai peidio ac a ddylent wneud cais i gael eu had-dalu am wneud hynny. Os datgymhwysir y darpariaethau, ni fydd dyletswydd ar y cyflogwyr i ddarparu gwasanaeth didynnu drwy'r gyflogres, ac ni fydd ychwaith yn eu hatal rhag gwneud cais i gael eu had-dalu am y costau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny. Felly, ni wyddys beth fydd effaith na chost dileu'r cyfyngiadau ar y darpariaethau sy'n ymwneud â didynnu drwy'r gyflogres.*

# 5. Ymateb Rhanddeiliaid

Fel rhan o'i waith o graffu ar y Bil yng Nghyfnod 1 o broses ddeddfwriaethol y Cynulliad, galwodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau am dystiolaeth.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar yr angen am y ddeddfwriaeth, a tystiolaeth am effaith datgymhwyso darpariaethau penodol oddi fewn i Ddeddf 2016 ar awdurdodau datganoledig Cymru. Roedd hefyd yn ceisio barn ar ganlyniadau anfwriadol yn sgil y Bil, ac unrhyw oblygiadau ariannol i wasanaethau cyhoeddus.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad ysgrifenedig, cynhaliwyd pedair sesiwn dystiolaeth gyda chynrychiolwyr o'r undebau llafur, staff y sector cyhoeddus yng Nghymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

Roedd **cefnogaeth gref** yn y dystiolaeth o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil ac o blaid pob un o'r darpariaethau yn Neddf 2016 yr oedd Llywodraeth Cymru yn ceisio'u datgymhwyso. Hefyd, cafwyd **cefnogaeth gref** gan y rheini a wnaeth sylwadau o ran parhau i wahardd y defnydd o weithwyr asiantaeth yn ystod gweithredu diwydiannol.

Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio'n bennaf ar lwyddiant y model presennol o weithio, yn enwedig y bartneriaeth gymdeithasol, sy'n gweithio'n dda ym marn undebau llafur a chyflogwyr fel ei gilydd. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr effaith negyddol bosibl y darpariaethau yn Neddf 2016 ar gysylltiadau diwydiannol yng Nghymru, ac er bod gan fodel y bartneriaeth gymdeithasol ei drafferthion, mae'n gweithio'n effeithiol ar y cyfan i oresgyn rhai heriau sylweddol y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn eu hwynebu.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth fod y bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru wedi chwarae rhan bwysig o ran osgoi gweithredu diwydiannol fel sydd wedi digwydd yn Lloegr. Roedd y dystiolaeth a gafwyd yn cadarnhau'r farn bod rhai tensiynau ac anawsterau'n perthyn i'r bartneriaeth gymdeithasol, a'i bod yn gofyn am ymrwymiad gan y partneriaid er mwyn iddi weithio. Fodd bynnag, cafwyd tystiolaeth gref bod y gwaith partneriaeth wedi bod yn hanfodol o ran rheoli a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa o gyni cyllidol.

Roedd llawer yn credu y byddai'r trothwy pleidleisio o 40 y cant ar gyfer 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' yn newid y cydbwysedd pŵer rhwng cyflogwyr, yr undebau llafur a phartneriaid cymdeithasol eraill, ac yn niweidio cysylltiadau diwydiannol ym meysydd gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Un o ganlyniadau anfwriadol posibl y trothwy newydd yn ôl un cyflogwr oedd y byddai'r undebau llafur yn canolbwyntio ar gyrraedd y trothwy gofynnol yn hytrach na gweithio gyda rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddatrys problemau.

# 6. Taith trwy'r Cynulliad

## Cyfnod 1

Craffwyd ar y Bil yng Nghyfnod 1 o broses ddeddfwriaethol y Cynulliad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (MCD).

Fe ystyriodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau **egwyddorion cyffredinol** y Bil gan glywed tystiolaeth ar lafar gan gyflogwyr ac undebau llafur, tystiolaeth ysgrifenedig trwy ymgynghoriad cyhoeddus a thrwy graffu yr Ysgrifennydd Cabinet, Mark Drakeford AM.

Nododd adroddiad y Pwyllgor:

> *Nodwn y gefnogaeth eang yn y dystiolaeth ar gyfer egwyddorion cyffredinol y Bil. Daeth y gefnogaeth, nid yn unig gan rai sy'n cynrychioli undebau llafur, ond gan rai sy'n cynrychioli cymdeithasau proffesiynol a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus.*

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod tystion ac ymatebwyr 'ar y cyfan, yn gwrthwynebu Deddf 2016', ac felly'n gwrthwynebu'r darpariaethau oddi fewn i'r Ddeddf y mae Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 yn ceisio eu datgymhwyso.

Roedd consenswс ymhlith pob aelod ond un o'r Pwyllgor bod dull cyfredol Llywodraeth Cymru o ddelio â gweithredu diwydiannol, wedi ei seilio ar y bartneriaeth gymdeithasol, yn gweithio'n dda, ac oherwydd hynny, ni rhagwelir angen am newidiadau i'r trefniant deddfwriaethol presennol.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod:

> *Trefniadau o dan Ddeddf 1992 (h.y. y rhai a oedd ar waith cyn y Ddeddf 2016) yn gweithio'n effeithiol yng Nghymru a'u bod yn ffafriol i'r dull partneriaeth gymdeithasol; mae hwn yn ddull y mae Llywodraeth Cymru, yr undebau llafur a chyflogwyr y sector cyhoeddus wedi ymrwymo iddo ac sydd fel pe bai'n gweithio'n effeithiol yng Nghymru.*

Yn ei adroddiad Cyfnod 1 argymhellodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau fod y **Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil**.

Ymddangosodd yr Ysgrifennydd Cabinet o flaen y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 6 Mawrth 2017. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar faterion yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i basio'r Bil, drafftio'r Bil, ac arsylwadau penodol ar bwerau penodol i greu is-ddeddfwriaeth.

Yn ei adroddiad yng Nghyfnod 1, fe wnaeth y Pwyllgor MCD tri argymhelliad, gydag un o'r rhain yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet i egluro yn ystod dadl Cyfnod 1 pam nad oedd y Bil yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â gweithwyr asiantaeth.

Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 3 Mawrth 2017 ynghylch goblygiadau ariannol y Bil, gan nodi ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet.

Derbyniwyd y cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Mai 2017.

## Cyfnod 2

Cynhaliwyd trafodion Cyfnod 2 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) ar **15 Mehefin 2017** gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Cyflwynwyd **naw gwelliant** ar y cam hwn:

- Bwriad tri o'r gwelliannau oedd dirymu'r tair prif ddarpariaeth yn y Bil;
- Roedd tri yn welliannau a gyflwynwyd gan Llywodraeth Cymru oedd yn ymwneud â materion drafftio;
- Roedd dau o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Llywodraeth Cymru yn ymwneud â pharhau â'r gwaharddiad ar y defnydd o weithwyr dros dro i gyflenwi yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol; a
- Cyflwynwyd un gwelliant gan Lywodraeth Cymru i gael gwared ar y pwerau yn y Bil i wneud Gorchmynion.

Derbyniwyd yr holl welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, a gynigiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Gwrthododd y Pwyllgor welliannau'r wrthblaid, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AC

### Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2

Isod, nodir y prif welliannau a dderbyniwyd yn ôl **grwpio gwelliannau**. O ganlyniad i'r newidiadau isod, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Esboniadol** diwygiedig.

### Gwelliannau drafftio

Gwelliannau drafftio oedd **gwelliannau 4, 5 a 6**, a ddisgrifiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet fel mân welliannau a gwelliannau technegol. Mae Bil yr Undebau Llafur (Cymru) yn mewnosod diffiniad o awdurdod Cymreig datganoledig yn Neddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992. Cafodd y tri gwelliant eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod Deddf 1992 wedi'i diwygio yn cael ei rhifo yn y drefn gywir.

Derbyniwyd yr holl welliannau drafftio gan y Pwyllgor.

### Gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr dros dro i gymryd lle staff yn ystod gweithredu diwydiannol

**Gwelliannau 7 ac 8** oedd y rhai mwyaf arwyddocaol a gyflwynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet. Roedd y gwelliannau'n ymwneud â defnyddio gweithwyr dros dro (gweithwyr asiantaeth) i gymryd lle gweithwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol.

Ar hyn o bryd, ni chaniateir i gyflogwyr ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i gymryd lle staff yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol. Dyma a nodir yn rheoliad 7 o ***Reoliadau Cynnal Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003***:

> 7.—(1) Subject to paragraph (2) an employment business shall not introduce or supply a work-seeker to a hirer to perform—
>
> > (a) the duties normally performed by a worker who is taking part in a strike or other industrial action

Bu Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar gynnig yn 2015 i ddiddymu'r gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth yn lle staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol. Wrth gynnig y gwelliant ar gyfer Bil yr Undebau Llafur (Cymru), eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *No legislative measures have been taken as a result of that consultation, but what these amendments do is safeguard the existing position for Welsh devolved public bodies.*

Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnwys y ddarpariaeth yn y Bil a gyflwynwyd ar 16 Ionawr, ac roeddent yn ymgynghori â rhanddeiliaid yn ystod y broses craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan dystion ac Ysgrifennydd y Cabinet ei hun ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol, a daeth i'r casgliad y byddai diddymu'r gwaharddiad yn:

> *Tanseilio gallu'r undebau llafur i ymgysylltu fel partneriaid cyfartal, a fydd, yn ei dro, yn tanseilio'r dull partneriaeth gymdeithasol. Felly, rydym yn credu ei bod yn bwysig sicrhau bod y gwaharddiad yn parhau yng Nghymru.*

O ganlyniad, mae **Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor** yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i:

> *Gynnwys darpariaeth yn y Bil i wahardd y defnydd o weithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol sy'n cynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig.*

Derbyniwyd y gwelliannau a gyflwynwyd i sicrhau parhad y gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i gymryd lle staff yn ystod gweithredu diwydiannol.

### Pwerau i wneud Gorchmynion

Mae **gwelliant 9** yn ymwneud â phwerau i wneud Gorchmynion mewn perthynas â darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed. Wrth gynnig y gwelliant, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi gofyn i Lywodraeth Cymru wneud fel a ganlyn:

> *Keep section 2(2) in this Bill under review during its passage in front of the Assembly to see whether transitional and saving provisions were still required by the time the Bill reached the statute book.*

Roedd hyn mewn ymateb i'r ffaith nad oedd Deddf 2016 wedi cychwyn eto.

Ar 1 Mawrth 2017 yn ystod trafodion Cyfnod 1 Bil yr Undebau Llafur (Cymru), **cychwynnwyd Deddf 2016** gan Lywodraeth y DU. O ganlyniad, nid oes angen y pwerau a nodir yn adran 2(2) bellach, yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet. Felly, mae'r gwelliant a gyflwynwyd yn cael gwared ar y pwerau hyn o'r Bil.

Derbyniwyd y gwelliant.

## Cyfnod 3

Cynhaliwyd trafodaeth Cyfnod 3 y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar **11 Gorffennaf 2017**. Cyflwynwyd **wyth gwelliant** at ei gilydd. Roedd yr holl welliannau yn enw Janet Finch-Saunders AC, a gyflwynodd y gwelliannau.

Effaith fwriadedig gwelliannau 1 i 3 oedd dirymu tri o ddarpariaethau allweddol y Bil:

- dileu'r cyfyngiadau ar ddidynnu tanysgrifiadau i undebau o gyflogau gan gyflogwyr;
- datgymhwyso’r pwerau i’w gwneud yn ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster a gosod gofynion ar gyflogwyr sector cyhoeddus mewn perthynas ag amser cyfleuster â thâl; a
- datgymhwyso’r trothwy o 40% o blaid gweithredu diwydiannol sy’n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus pwysig.

Trechwyd gwelliannau 1-3 (o blaid: 12; yn erbyn: 43; neb yn ymatal).

Roedd gwelliant 6 yn ceisio diwygio darpariaeth yn y Bil sydd â’r effaith o gadw’r sefyllfa bresennol mewn perthynas â gwahardd y defnydd o weithwyr asiantaeth yn lle’r staff arferol yn ystod gweithredu diwydiannol. Ymgynghorodd Llywodraeth y DU ynghylch y posibilrwydd o ddirymu Rheoliad 7 o Reoliadau Gweithrediad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003, a fyddai’n cael gwared ar y gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth yn ystod gweithredu diwydiannol. Fel y mae’n sefyll, nid yw Llywodraeth y DU wedi dirymu’r Rheoliad dan sylw. Trechwyd y gwelliant (o blaid: 12; yn erbyn: 42; neb yn ymatal).

Galwodd gwelliant 8 ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad llawn o wir effaith y Bil hwn cyn ei ddeddfu. Trechwyd y gwelliant (o blaid: 12; yn erbyn: 42; neb yn ymatal)

Tynnwyd gwelliannau 4 a 5 yn ôl, ac ni chyflwynwyd gwelliant 7 gan yr Aelod Cynulliad dros Aberconwy.

## Cyfnod 4

Yn dilyn dadl fer yn y Cyfarfod Llawn ar **18 Gorffennaf 2017**, pasiwyd y Bil terfynol.

### Cydsyniad Brenhinol

Unwaith caiff Bil ei basio gan y Cynulliad yng Nghyfnod 4, gall Clerc y Cynulliad gyflwyno’r Bil i gael Cydsyniad Brenhinol, yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006,* ond dim ond ar ôl i’r ‘cyfnod hysbysu’ o bedair wythnos ddod i ben.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae Deddf 2006 yn caniatáu i Filiau’r Cynulliad gael eu herio drwy un o ddwy ffordd:

- Cyfeiriad at y Goruchaf Lys gan naill ai Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru neu Dwrnai Cyffredinol Llywodraeth y DU.
- Gorchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwahardd Clerc y Cynulliad rhag cyflwyno Bil ar gyfer Cydsyniad Brenhinol.

**Ni chafwyd her o’r fath** yn achos Bil yr Undebau Llafur (Cymru). **Cafodd Gydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Medi 2017**.

### Cychwyn y Ddeddf

Daw holl ddarpariaethau’r Ddeddf i rym ar 13 Medi 2017.